

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Cynorthwydd Caffael i Dalu
CYFEIRNOD: NU268

CYFLOG - GRADD 5: £19,554 - £19,945 y flwyddyn (pro rata)
(Parhaol ac yn amodol ar werthusiad swydd)

37 AWR YR WYTHNOS
(Cynllun Gweithio Hyblyg)

Mae swydd llawn amser parhaol wedi codi ar gyfer **Cynorthwydd Caffael i Dalu** o fewn adran gaffael yr Adran Gyllid, Caffael ac Eiddo a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Llantrisant Rydym yn sefydliad sy'n ystyrgar i deuluoedd a gweithredir system weithio hyblyg.

Prif rôl yr ymgeisydd llwyddiannus bydd ffynhonnell a phrosesu archebion am nwyddau a gwasanaethau'n unol ag archebion sefydlog cytundebol. Bydd y ffynhonnell yn cynnwys cael amcan brisiau ar lafar ac ysgrifenedig gan gyflenwyr, prosesu trefniadau teithiol gyda'r trê, llety, gan gynnwys digwyddiadau rhyngwladol yn ôl gofyn y Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn creu a diwygio cofnodion cyflenwyr a phrosesu anfonebau yn unol â pholisiau a gweithdrefnau.

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol. Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Bydd y rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru a bydd angen i ddeilydd y swydd deithio'n annibynnol.

Gweler www.decymru-tan.gov.uk

I gael trafodaeth anffurfiol am y rôl, mae croeso i chi gysylltu â Lee Bunkham ar 01443 232090 neu drwy law e-bost l-bunkham@southwales-fire.gov.uk

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **17eg o Fai 2019 am 12 ganol dydd**. Mae dyddiadau'r Broses Ddethol eto i'w cadarnhau.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

